Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2017/18

ISBN digidol 978 1 4734 7994 4
© Hawlfraint y Goron Ionawr 2017
WG30290

# Cynnwys

**Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2017/18** **2**
**1. Y cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2017/18** **3**
**2. Rhagolwg dangosol i nodi'r eitemau a allai fod yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2018/19 (gallent newid)** **9**

# Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2017/18

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cylch gwaith blynyddol Estyn ar gyfer 2017/18 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Mae’r cylch gwaith blynyddol yn ychwanegol at waith craidd Estyn o gynnal arolygiadau.

Mae’r ddogfen yn nodi'r canlynol:

1. y cyngor penodol sy’n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2017/18, sy’n cynnwys:

    a) materion lle gofynnir i Estyn ddarparu adroddiadau manwl a, lle bo'n briodol, adnoddau eraill sy’n tynnu ar dystiolaeth a gesglir yn ystod arolygiadau thematig;

    b) gweithgorau y gofynnir i Estyn eu cefnogi;

    c) meysydd eraill lle gallai Llywodraeth Cymru geisio cyngor a chymorth; a

    d) gweithgarwch dilynol ar yr adolygiadau o’r Consortia Addysg Rhanbarthol ar gyfer Gwella Ysgolion a gynhaliwyd yn 2016.

2. rhagolwg dangosol er mwyn nodi’r cyngor sy’n debygol o fod yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2018/19.

# 1. Y cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2017/18

## 1a) Adroddiadau manwl a, lle bo'n briodol, adnoddau eraill sy'n tynnu ar dystiolaeth a gesglir yn ystod arolygiadau thematig

Caiff yr adolygiadau thematig sydd i'w cynnwys yng nghylch gwaith Estyn ar gyfer 2017/18 eu rhestru yn y tabl ar y dudalen nesaf.

Mae'r rhestr yn cynnwys 13 eitem: 2 adolygiad mawr a fydd yn darparu adnoddau cymorth ymarferol ar gyfer y sector; 9 adolygiad safonol; a 2 adolygiad byr. Mae lle hefyd ar gyfer un adolygiad byr, cyflym.

Mae'r rhestr o eitemau yn adlewyrchu cylch gwaith strategol sy'n gysylltiedig â'm blaenoriaethau ar gyfer addysg a hyfforddiant, gyda phwyslais ar ganlyniadau *Dyfodol Llwyddiannus*.

| | **Teitl** | **Diben** | Blwyddyn/Cyfnod |
|---|---|---|---|
| 1. | Arfer gorau mewn ysgolion a cholegau o ran addysgu'r cymwysterau TGAU newydd a Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd. | Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gynllunio'r cwricwlwm a chyflwyno'r cymwysterau TGAU newydd mewn Saesneg, Cymraeg Iaith, Mathemateg a rhifedd, a Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd. Bydd hefyd yn ystyried dulliau gweithredu o ran cofrestru ar gyfer arholiadau. Bydd yr adolygiad yn fodd i rannu arferion effeithiol drwy ddeunyddiau hyfforddi a chynhadledd. | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad mawr |
| 2. | Gwella addysgu a meithrin gallu: canllaw arfer da a phecyn cymorth ar gyfer ysgolion. | Bydd yr adolygiad hwn yn gwerthuso'r effaith y mae rhaglenni fel arsylwi cymheiriaid, hyfforddi a mentora ac adborth yn ei chael ar ddysgwyr mewn ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd. Bydd yr adroddiad yn cael | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad mawr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ei ategu gan adnoddau i ysgolion. | |
| 3. | Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd: blwyddyn 2. | Yr adolygiad hwn fydd yr ail mewn cyfres o dri adroddiad ar gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Bydd yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar y broses o ddiwygio'r cwricwlwm, yn enwedig arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. | Blwyddyn 2 o 3<br>Adolygiad safonol |
| 4. | Addysg grefyddol a moesol yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. | Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau ar feysydd pwnc y cwricwlwm. Bydd yn adeiladu ar yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2013 ar Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4. | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 5. | Y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3: adroddiad pwnc. | Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau ar feysydd pwnc y cwricwlwm. Bydd yn canolbwyntio ar y Gymraeg fel pwnc o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 ac yn gysylltiedig â'r datblygiadau cynnar yn y maes dysgu a phrofiad newydd. | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 6. | Safon Uwch mewn dosbarthiadau chwech a cholegau. | Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi trosolwg o'r safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth mewn perthynas â'r ddarpariaeth Safon Uwch ar gyfer dysgwyr 16-19 oed mewn | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | dosbarthiadau chwech a cholegau. | |
| 7. | Addysg gychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol mewn ysgolion. | Bydd yr adolygiad hwn yn darparu astudiaeth sylfaenol o'r berthynas rhwng arferion hyfforddiant cychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol mewn ysgolion. Bydd yn helpu i lywio gwaith darparwyr addysg gychwynnol athrawon wrth iddynt baratoi ar gyfer y cyrsiau sydd newydd eu hachredu. Bydd yn canolbwyntio ar hyfforddi a mentora, sy'n elfennau pwysig o addysg gychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol. | Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol |
| 8. | Prentisiaethau uwch. | Bydd yr adolygiad hwn yn darparu adroddiad sylfaenol cenedlaethol ar brentisiaethau uwch. | Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol |
| 9. | Cyfleoedd addysg a hyfforddiant ar gyfer troseddwyr ifanc. | Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar addysg a hyfforddiant ar gyfer troseddwyr ifanc yng Nghymru, sy'n grŵp o ddysgwyr sy'n agored iawn i niwed. | Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol |
| 10. | Symudiadau wedi'u rheoli - pa mor dda y caiff y rhain eu defnyddio gan Awdurdodau Lleol ac ysgolion. | Bydd yr adolygiad hwn yn disgrifio sut caiff symudiadau wedi'u rheoli eu defnyddio a pha mor aml: yn dilyn negeseuon o adroddiad Estyn 'Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)' yn 2016. | Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11. | Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc yng Nghymru | Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o wasanaethau ieuenctid yng Nghymru. Bydd yn cyfrannu at werthusiad ar y cyd gan Arolygu Cymru (Estyn, AGIC, Swyddfa Archwilio Cymru ac AGGCC). | Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol |
| 12. | Parodrwydd awdurdodau lleol ac ysgolion ar gyfer bodloni gofynion y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd. | Bydd yr adolygiad hwn yn darparu sylfaen i helpu llunwyr polisi asesu effaith y Bil ADY yn y dyfodol. | Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad byr |
| 13. | Cyfathrebu â rhieni disgyblion ysgol a darparu gwybodaeth ar eu cyfer. | Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y dulliau cyfathrebu a ffefrir gan rieni. Bydd yn ystyried sut mae ysgolion yn ceisio gwella eu dulliau presennol o gyfathrebu. Ymhlith y dystiolaeth a ddefnyddir fydd yr ymatebion i holiaduron Estyn, sy'n dangos bod yr ymatebion gwanaf ar yr holiadur i rieni yn ymwneud â chyfathrebu: gwybod sut i wneud cwyn a chael gwybod am gynnydd eu plentyn. | Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad byr |
| Lle ychwanegol i gynnal un adolygiad byr, cyflym | | | |

## 1b) Meysydd polisi y gallai'r Gyfarwyddiaeth Addysg geisio cyngor neu gymorth yn eu cylch, a hynny drwy gyfrannu at waith gweithgorau

Mae Estyn yn darparu cyngor a chymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn amrywiaeth o feysydd. Gellir gofyn i Estyn roi cymorth i amryw o wahanol weithgorau, drwy ddod yn rhan ohonynt, drwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, neu drwy drafodaethau gydag uwch-swyddogion y Gyfarwyddiaeth Addysg.

Ar gyfer 2017/18, rhagwelir y bydd Estyn yn rhan o'r gweithgorau canlynol, ond bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i'r gwaith fynd rhagddo:

- Grŵp Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Atebolrwydd (Dyfodol Llwyddiannus)
- Gweithgor Gwella Safon Uwch
- Fforwm Cymru Gyfan o Ymarferwyr Addysg Sipsiwn-Teithwyr
- Grŵp Rhanddeiliaid y Cynnig Gofal Plant
- Grŵp Llywio Dysgu Creadigol
- Grŵp Llywio Mesurau Perfformiad Cyson
- Grŵp Arbenigol ar y Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu
- Grŵp Cyfathrebu Cwricwlwm Cymru
- Bwrdd Rhaglen Diwygio'r Cwricwlwm
- Gweithredu'r Adolygiad o'r Cwricwlwm: Bwrdd Newidiadau
- Grŵp Rhanddeiliaid ar gyfer Gweithredu Argymhellion Donaldson
- Grwpiau Pwnc ar gyfer Gweithredu Argymhellion Donaldson
- Grŵp Datblygu'r Gweithlu ar gyfer Gweithredu Argymhellion Donaldson
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol
- Grŵp Arbenigol y Cyfnod Sylfaen
- Grwpiau Pynciau TGAU
- Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang
- Fforwm Arbenigol Addysg Gychwynnol Athrawon
- Grŵp Trosglwyddo o Addysg Gychwynnol Athrawon
- Bwrdd Prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol
- Fforwm Awdurdodau Lleol - Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol
- Rhwydwaith Rhagoriaeth Cenedlaethol ar gyfer Mathemateg (statws arsylwi)
- Rhwydwaith Rhagoriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg (statws arsylwi)
- Grŵp Cyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid (statws arsylwi)
- Grŵp Cynghori ar Ddysgu ar gyfer Troseddwyr
- Grŵp Gweithredu Adolygiad Cam 1
- Gweithgor Arloeswyr
- Grŵp Llywio'r Rhaglen Llythrennedd Corfforol ar gyfer Ysgolion
- Grŵp Diogelu mewn Addysg
- Cyfarfod Cadw mewn Cysylltiad (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaethau)
- Bwrdd Cysgodol ar gyfer Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol

Grwpiau Dylunio Strategol y Cwricwlwm (llinyn 1):

- Asesu a chynnydd
- Sgiliau ehangach, y dimensiwn Cymreig a safbwynt rhyngwladol
- Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd
- Cyfoethogi, profiadau a chynhwysiant

Gweithgorau'r Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Y dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg.

## 1c) Meysydd eraill y gallai'r Gyfarwyddiaeth Addysg geisio cyngor a chymorth yn eu cylch

Mae Estyn hefyd yn cynnig cefnogaeth barhaus yn y meysydd canlynol:

- Cynigion yn ymwneud â chau ac ad-drefnu ysgolion.

- Lleoliadau ar gyfer disgyblion sydd â datganiad o angen addysgol arbennig (AAA), lle mae caniatâd penodol gan Weinidog Cymru yn ofynnol o dan adran 347(5)(b) o Ddeddf Addysg 1996;

- Monitro’n flynyddol ysgolion annibynnol sydd wedi eu cymeradwyo o dan adran 347(1) o Ddeddf Addysg 1996, i dderbyn disgyblion â datganiadau AAA yn gyffredinol ac sydd â disgyblion ag AAA ar y gofrestr; neu ysgol annibynnol sydd wedi’i chofrestru i dderbyn disgyblion sydd ag AAA o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 ac sydd â disgyblion AAA ar y gofrestr;

- Arolygu a monitro’n flynyddol holl golegau arbenigol ac annibynnol Cymru, a darparu arolygydd fel rhan o dîm ar gyfer yr arolygiadau neu’r ymweliadau monitro blynyddol â cholegau arbenigol annibynnol yn Lloegr lle y caiff lleoedd 10 neu fwy o ddysgwyr o Gymru eu cyllido;

- Cofrestru ysgolion annibynnol o dan adran 163;

- Grant Amddifadedd Disgyblion;

- Y Grant Gwella Addysg ar gyfer ysgolion;

- Datblygu cymwysterau a threfniadau arolygu ar gyfer unrhyw ofynion newydd arfaethedig o ran hyfforddiant cychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes;

- Ysgolion sy'n peri pryder;

- Gwaith dilynol gyda’r Awdurdodau Addysg Lleol;

- Enwebiadau er Anrhydedd;

- Gwybodaeth gefndir ar gyfer ymweliadau Gweinidog ag ysgolion;

- Cwestiynau'r Cynulliad.

### 1d) Gweithgarwch dilynol ar yr adolygiadau o’r Consortia Addysg Rhanbarthol ar gyfer Gwella Ysgolion

Cafodd pob un o’r pedwar consortiwm eu harolygu gan Estyn yn 2016. Cytunwyd y bydd gweithgarwch dilynol ar gyfer pob consortiwm rhanbarthol yn ystod hydref 2016 a gwanwyn 2018.

## 2. Rhagolwg dangosol i nodi’r eitemau a allai fod yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2018/19 (gallent newid)

- Hunanwerthuso a chynllunio strategol effeithiol ar gyfer ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd.
- Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd: Blwyddyn 3.
- Pa mor dda y mae ysgolion yn cefnogi athrawon newydd gymhwyso?
- Y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd: canllaw arfer da.
- Saesneg fel ail iaith neu iaith arall mewn Addysg Bellach.
- Gofalwyr ifanc.
- Ysgolion ffederal: astudiaeth achos ar nodweddion cyffredin cydweithio effeithiol.
- Pa mor dda y mae addysg gychwynnol i athrawon yn ymateb i’r broses o ddiwygio'r cwricwlwm?
- Diweddariad ar y daith i wella ysgolion uwchradd: canolbwyntio ar gyrraedd safon dda a chynnal rhagoriaeth.
- Dechrau cyfres o adolygiadau o bynciau Safon Uwch.